

Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Comisiwn y Cynulliad

National Assembly for Wales  
Assembly Commission

Simon Thomas AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

7 Tachwedd 2017


Annwyl Simon

Diolch am adroddiad eich Pwyllgor, **Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2018–2019**, a gyhoeddwyd ar 20 Hydref 2017. Mae ymateb manwl y Comisiwn i argymhellion y Pwyllgor Cyllid i'w weld yn yr atodiad sydd ynghlwm.

Mae'r Comisiwn yn dymuno cofnodi bod y Gyllideb Ddrafft hon ar gyfer 2018–19 wedi ei chynnig yng nghyd-destun strategaeth pum mlynedd y gyllideb a gafodd ei chyflwyno, ei harchwilio a'i hargymell yn flaenorol.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith craffu ac rwy'n edrych ymlaen at y ddadl ar y cynnig ynghylch cyllideb y Comisiwn yr wythnos nesaf. Mae'r Comisiwn bob amser yn ceisio gweithredu mewn ffordd ddidwyll, dryloyw a chlr, felly mae croeso ichi gysylltu â mi os hoffai eich Pwyllgor gael rhagor o wybodaeth.

Yn gywir



Suzy Davies

copi at Manon Antoniazzi, Nia Morgan

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA  
Sulafa.Thomas@cynulliad.cymru  
www.cynulliad.cymru  
0300 200 6227

**National Assembly for Wales**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA  
Sulafa.Thomas@assembly.wales  
www.assembly.wales  
0300 200 6227

## Argymhellion y Pwyllgor Cyllid

*Argymhelliad 1. Gofynnwyd am gyllideb o 3.1 y cant ar gyfer Gwasanaethau Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2018–19, sy'n uwch na chwyddiant a'r cynnydd yn grant bloc Cymru. O gofio'r toriadau parhaus a ddisgwylir ym mhob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ac yn seiliedig ar y ffigurau dangosol a ddarparwyd yn nogfennaeth y Gyllideb ddrafft, mae'r Pwyllgor yn argymhell na ddylai cyllideb Comisiwn y Cynulliad, yn y blynyddoedd sy'n weddill o'r Cynulliad hwn, fod yn uwch nag unrhyw newidiadau i grant bloc Cymru*

Cytuno mewn egwyddor

Bydd y Comisiwn yn parhau i ystyried y gyfran o Grant Bloc Cymru, neu'n fwy penodol y cyfanswm y pleidleisiodd y Cynulliad arno, wrth baratoi cyllidebau gweithredol yn y dyfodol. Wrth wneud hynny, bydd angen inni gofio am amrywiad posibl yn Grant Bloc Cymru o ganlyniad i bwerau newydd i amrywio trethi.

Mae'n ofynnol i'r Comisiwn, yn unol â deddfwriaeth, sicrhau bod digon o arian ar gael i weithredu'r Penderfyniad gan y Bwrdd Taliadau annibynnol.

Mae cyllideb y Comisiwn hefyd yn cynnwys darpariaeth gyfrifyddu ar gyfer Cynllun Pensiwn yr Aelodau o dan bennawd Trysorlys Ei Mawrhydi ar gyfer Gwariant a Reolir yn Flynyddol. Caiff hon ei gosod gan yr actiwari, sef Adran Actiwari'r Llywodraeth.

*Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell diwygio'r gyllideb derfynol i ddileu'r cais i neilltuo £700,000 er mwyn gwneud cais cynllunio ar gyfer adeilad newydd. Os bydd angen bwrw ymlaen â'r cais, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r Comisiwn ofyn am yr arian drwy gyllideb atodol, neu mewn cyllideb yn y dyfodol.*

Cytuno.

Mae gan y Comisiwn gyfrifoldeb statudol i ddarparu'r eiddo, y cyfleusterau a'r gwasanaethau angenrheidiol sy'n ofynnol i'r Cynulliad gyflawni ei rôl yn effeithiol wrth gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, deddfu ar gyfer Cymru, cytuno ar



drethi Cymreig a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Mae Gorchymyn<sup>1</sup> hefyd yn rhoi dyletswydd ar y Comisiwn i ddarparu ystafelloedd swyddfa yn Nhŷ Hywel i Lywodraeth Cymru.

Diben y Comisiwn felly oedd gweithredu ei gyfrifoldeb statudol am y materion hyn, trwy nodi'r angen am le ychwanegol i sicrhau y gellir diwallu anghenion y Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn y tymor hir.

*Argymhelliad 3. Os bydd y Comisiwn yn dewis defnyddio cyllideb atodol i ddechrau'r gwaith cynllunio ar gyfer adeilad newydd posibl, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Comisiwn, cyn cyflwyno cynnig cyllideb atodol, gyflwyno'r Memorandwm Esboniadol sy'n ofynnol yn ôl Rheol Sefydlog 20.32 i'r Pwyllgor i'w ystyried cyn iddo gael ei gyflwyno. Byddai'r Pwyllgor yn disgwyl gweld gwybodaeth fanwl am y rhesymau pam y mae angen adeilad newydd o ran anghenion y Comisiwn a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys rhwymedigaethau statudol, a sut y byddai'n darparu ar gyfer cynnydd posibl yn nifer yr Aelodau Cynulliad.*

Cytuno.

Ym mis Rhagfyr 2017, bydd y Comisiwn yn adolygu cynigion ar gyfer cyflwyno cais cynllunio ar gyfer adeilad newydd posibl i ddiwallu anghenion hirdymor y Cynulliad a Llywodraeth Cymru. Os yw'r Comisiwn yn cytuno i fwrw ymlaen â chais cynllunio, yna byddai angen Cyllideb Atodol cyn gynted ag y bo modd er mwyn lleihau risgiau masnachol.

Byddai'r Comisiwn, yn unol â'r cais, yn cyflwyno Memorandwm Esboniadol i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl fel sy'n ofynnol gan Reol Sefydlog 20.32. Byddai'r Memorandwm hwn yn rhoi manylion yr achos dros adeilad newydd a'r gwaith sydd i'w wneud i baratoi'r cais cynllunio.

---

<sup>1</sup> Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2007 (OS 2007/1269)



*Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Comisiwn y Cynulliad gymryd camau i sicrhau bod ei benderfyniadau o ran gwariant yn cael eu cyfleu i grwpiau'r pleidiau ac yn cael eu trafod yn briodol â hwy.*

Cytuno.

Caiff nodyn cyfathrebu ei baratoi ar ôl pob cyfarfod o'r Comisiwn er mwyn rhoi adborth i grwpiau'r pleidiau. Byddai'r Comisiynwyr yn croesawu awgrymiadau gan grwpiau'r pleidiau ynghylch sut i gyfathrebu'n well.

*Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Comisiwn baratoi diweddariad yn ystod y flwyddyn (cyn diwedd pob blwyddyn galendr) ar danwariant tebygol y Bwrdd Taliadau ynghyd ag unrhyw newidiadau sylweddol i'r prosiectau y bwriedir eu hariannu drwy ddefnyddio'r tanwariant hwn.*

Cytuno.

Ym mis Mawrth 2017, ysgrifennodd y Comisiwn at y Pwyllgor yn rhoi gwybodaeth ynghylch y tanwariant rhagamcanol mewn perthynas â'r arian a gafwyd i gyllido Penderfyniad y Bwrdd Taliadau, gan ddangos sut yr oedd Comisiwn y Cynulliad yn bwriadu defnyddio'r tanwariant hwn. Yn dilyn hynny, aethom gerbron y Pwyllgor Cyllid ym mis Mehefin 2017 i drafod ymhellach y defnydd o danwariant y Bwrdd Taliadau.

Fodd bynnag, byddwn yn hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr. Bydd dogfen ein Hadroddiad Blynnyddol a Chyfrifon ar gyfer 2017-18 hefyd yn cynnwys manylion llawn am ein gwariant yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

*Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Comisiwn ystyried y blaenoriaethau sy'n gysylltiedig â thanwariant y Bwrdd Taliadau er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau'n adlewyrchu'n uniongyrchol y gwasanaethau sy'n cefnogi'r Aelodau.*

Cytuno.



Pwrpas craidd y Comisiwn yn awr, fel y bu erioed, yw rhoi blaenoriaeth i sicrhau gwasanaethau, staff a chyfleusterau i gefnogi Aelodau'r Cynulliad. Nod strategol cyntaf y Comisiwn yw darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf.

Mae'r blaenoriaethau sy'n gysylltiedig â thanwariant y Bwrdd Taliadau i'w gweld ar dudalen 29 o ddogfen y gyllideb ddrafft ar gyfer 2018–19. Mae tanwariant y Bwrdd Taliadau yn cyfrannu at y cronfeydd buddsoddi sydd ar gael i'r Comisiwn, ond nid dyma'r unig ffynhonnell.

Y blaenoriaethau yw'r eitemau sydd, fel yn achos holl wariant y Comisiwn, yn darparu cymorth a gwasanaethau i'r Aelodau. Mae'r rhain yn cynnwys diogelwch corfforol, seiberddiogelwch, cynnal a chadw hanfodol ar yr ystâd a gwella ymgysylltiad.

*Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn parhau'n bryderus am dryloywder y gwaith o gyllidebu ar gyfer tanwariant a ragwelir, ond cydnabyddir bod gan y Cynulliad Brif Weithredwr a Chlerc newydd ac mai cyllideb 2018/19 fydd ei chyllideb gyntaf fel Swyddog Cyfrifyddu, ac felly mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid ystyried o ddifrif sut yr eir ati i benderfynu ynghylch y gyllideb.*

Cytuno.

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol fod Archwilydd Cyffredinol Cymru, ar gyfer blwyddyn ariannol 2016–17, wedi rhoi barn ddiamed ar ddatganiadau ariannol Comisiwn y Cynulliad ac na chodwyd unrhyw faterion yn Adroddiad yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol nac yn y Llythyr Rheoli a gwblhawyd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Gwelwyd bod y systemau, y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol allweddol sy'n cefnogi'r broses o baratoi'r cyfrifon i gyd yn gadarn a bod polisiau cyfrifyddu wedi'u dilyn a'u defnyddio'n briodol.

Mae'r Prif Weithredwr newydd, fel y Swyddog Cyfrifyddu a chadeirydd y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau, wedi ystyried nifer o fodelau ar gyfer y gyllideb a bydd yn parhau i gadw llygad ar y mater hwn. Cafodd y rhain eu hystyried yn fanwl hefyd gan y Comisiwn, a barnwyd mai'r model presennol yw'r mwyaf tryloyw, gan wneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus. Rydym yn deall bod y Pwyllgor hefyd



wedi cael cyngor gan Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch y model cyllideb y mae'r Comisiwn yn ei ddefnyddio.

Mae dogfen y gyllideb ddrafft ar gyfer 2018–19 yn nodi'r elfennau disgwylidig canlynol:

- tanwariant gweithredol (gan gynnwys swyddi gwag)
- cronfeydd heb eu defnyddio sy'n gysylltiedig â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau

Mae dogfen y gyllideb hefyd yn nodi blaenoriaethau gwariant cyfredol y Comisiwn, os bydd y gyllideb ar gael. (Tudalen 29 o ddogfen y gyllideb ddrafft ar gyfer 2018–19.)

Byddwn, wrth gwrs, yn parhau i gadw llygad ar ein proses o osod y gyllideb i sicrhau ei bod yn nodi anghenion cyllido'r Comisiwn yn glir ac yn dryloyw, a hynny er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau statudol yn ogystal â'i nodau a'i flaenoriaethau strategol.

Os bydd argymhelliad dilynol i newid model presennol y gyllideb, byddem yn hapus i ystyried hyn a byddem yn dymuno trafod goblygiadau sylweddol gwneud hynny, â'r Pwyllgor Cyllid.

*Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid darparu'r adolygiad capasiti sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd fel papur i'r Pwyllgor. Ar y cam hwn, hoffai'r Pwyllgor weld manylion am y cynnydd yn nifer y staff dros y 10 mlynedd diwethaf, gan gynnwys manylion am y gwasanaethau lle y mae nifer y staff wedi cynyddu a'r rhesymau am y cynnydd hwn.*

Cytuno.

Caiff canlyniad yr Adolygiad Capasiti ei gyfathrebu i'r Pwyllgor wedi iddo gael ei gwblhau.

Bydd yr Adolygiad Capasiti yn cynnwys manylion ynghylch pa wasanaethau sydd wedi gweld cynnydd mewn swyddi cyfwerth ag amser llawn a'r rhesymau dros y cynnydd hwn.



*Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid ystyried yr adolygiad capasiti ochr yn ochr ag ymarfer meincnodi sy'n cynnwys seneddau eraill, gan gynnwys seneddau sydd â swyddogaeth ddwyieithog.*

Cytuno.

Bydd yr Adolygiad Capasiti yn cynnwys canlyniadau ein trafodaethau meincnodi cychwynol ac mae'n debygol y bydd angen cyfnod ychwanegol o amser arnom i ddadansoddi canlyniadau'r gwaith hwn i lunio safbwyntiau manwl.

Caiff canlyniad yr Adolygiad Capasiti ei gyfathrebu i'r Pwyllgor wedi iddo gael ei gwblhau.

*Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn yn y Cynulliad barhau fel y mae yn ystod blwyddyn ariannol 2018–19, er mwyn atal cynnydd ychwanegol mewn adnoddau staffio a rhoi cyfle i'r Prif Weithredwr a Chlerc newydd ystyried canlyniad yr adolygiad capasiti a sut y gellir defnyddio'r staff presennol yn effeithiol i fodloni blaenoriaethau'r Cynulliad a'r Comisiwn.*

Nodwyd.

Yn y flwyddyn ariannol bresennol, mae'r corff staffio y cytunwyd arno yn cynnwys 460 o swyddi wedi'u llenwi, 27 o swyddi sy'n wag ar hyn o bryd a 4 swydd prentis; felly cyfanswm y swyddi sefydledig yw 491.

At y dyfodol, o fewn y trothwy uchaf hwn, bydd y Comisiwn yn ymdrechu i gynnal lefelau gwasanaeth effeithiol i gefnogi Aelodau ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

Mae'r rhif Cyfwerth ag Amser Llawn, a gyflwynir yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon i gydymffurfio â gofynion cyfrifyddu, yn gyfrifiad gwahanol. Mae'n seiliedig ar nifer gwirioneddol y staff a gyflogir, gan gynnwys staff rhan-amser, rhai sy'n gweithio llai na'r oriau arferol, staff sy'n cyflenwi dros gyfnodau mamolaeth a secondiadau, a staff sy'n rhannu swyddi. Felly, gall y ffigwr cyfwerth ag amser llawn newid yn rheolaidd trwy'r flwyddyn. Ddiwedd mis Medi 2017, y nifer cyfwerth ag amser llawn oedd 457.1



Mae'r Comisiwn yn adolygu nifer sefydledig y staff fel rhan o'r Adolygiad Capasiti. Bydd hyn yn llywio'r trafodaethau ynghylch y lefel briodol o staff sydd ei hangen i ddiwallu'r heriau y mae'r Cynulliad yn eu hwynebu. Caiff canlyniad yr Adolygiad Capasiti ei gyfathrebu i'r Pwyllgor wedi iddo gael ei gwblhau.

*Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu cynnal ymchwiliad byr i gadarnhau sut y mae seneddau eraill, yn y DU ac yn ehangach, yn cyllidebu ar gyfer gwariant yn ymwneud â thaliadau a lwfansau Aelodau.*

Nodwyd.

